

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	Beyond The Border Storytelling Festival Ltd	Bydd Beyond The Border Storytelling Festival Ltd yn peilota prosiect yn Abertawe ar gyfer pobl sy'n byw gyda chlefydau dirywiol, gan annog nhw i ailwerthuso eu hymdeimlad o hunaniaeth ac adeiladu hunaniaeth gadarnhaol newydd. Bydd £9,895 yn ariannu ffioedd, costau gwirfoddoli, gweithdai, gwerthuso, gwres a golau a chostau rheoli.
Abertawe	Families Need Fathers Both Parents Matter Cymru	Bydd Families Need Fathers Both Parents Matter Cymru'n darparu gwasanaeth penodedig yn Abertawe, Port Talbot a'r cylch ar gyfer dynion sy'n profi cam-drin domestig a chael eu gwahanu rhag eu plant. Bydd £9,700 yn ariannu gweinyddu, hurio ystafell, treuliau staff a gwirfoddolwyr, hyfforddi, gwasanaethau cyfrifyddu ac yswiriant.
Abertawe	Neuadd Pentref Porth Einon	Bydd Neuadd Pentref Porth Einon yn Abertawe'n gwella'r cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned ehangach, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r gofod. Bydd £4,495 yn ariannu dodrefn newydd.
Abertawe	South Penlan Community Centre	Bydd South Penlan Community Centre yn Abertawe'n trwsio eu cegin, gan alluogi nhw i gynnal clwb cinio, cyrsiau coginio a gweithgareddau cymunedol eraill. Bydd £10,000 yn ariannu adnewyddu'r cegin.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	Swansea Association Independent Living CIC	Bydd Swansea Association Independent Living CIC yn cynyddu gweladwyedd y mudiad ac yn gwella eu hymdrechion cyd-gynhyrchu, gan sicrhau y gall pobl sydd ag anableddau gyflawni eu potensial. Bydd £9,225 yn ariannu staff, hyfforddiant, hurio ystafell gyfarfod, TG a nwyddau swyddfa, ffioedd, treuliau teithio a chyfarpar BSL.
Abertawe	V.I.B.E Youth CIC	Bydd V.I.B.E Youth CIC yn Abertawe'n cefnogi pobl ifanc i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, cynyddu eu hyder a'u haddysgu am effeithiau negyddol ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd £9,000 yn ariannu iPad, baneri, stondinau, hurio lleoliad, deunyddiau marchnata, ffioedd hyfforddi a gwisgoedd unffurf.
Abertawe	Valleys Kids	Bydd Valleys Kids yn datblygu gosod awyr agored Little Bryn Gwyn, canolfan eco-ddysgu'r mudiad ar benrhyn Gŵyr, sy'n darparu profiadau preswyl ar gyfer pobl fregus a difreintiedig o gymoedd De Cymru. Bydd £10,000 yn ariannu lori fechan ail-law, ffwrn pizza a chostau gosod.
Abertawe	Women4Resources	Bydd Women4Resources yn Abertawe'n trefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n grymuso menywod i gefnogi ei gilydd a rhannu eu sgiliau a phrofiadau. Bydd £8,900 yn ariannu staff, hyfforddiant, yswiriant, hurio lleoliad, adnoddau a deunyddiau gweithdy, a lluniaeth.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	Ysgol Gynradd Craigfelen	Bydd Ysgol Gynradd Craigfelen yn Abertawe'n gwella eu hardal natur a gemau, sy'n boblogaidd yn y gymuned leol. Bydd £10,000 yn ariannu rhwydi newydd, gwifren sip /cyfarpar antur ac adnoddau gwarchodfa natur.
Bro Morgannwg	BALLET NIMBA	Bydd Ballet Nimba ym Mro Morgannwg yn cynnal gweithdai dawnys a cherddoriaeth fel ffordd o gryfhau cynhwysiad cymdeithasol pobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Bydd £10,000 yn ariannu staff, gwisgoedd, setiau, propiau, marchnata, a threuliau gwirfoddolwyr.
Bro Morgannwg	Barry Young Men's Christian Association	Bydd Barry Young Men's Christian Association yn defnyddio gweithdai cerdd i ymdrin â phroblemau iechyd cymdeithasol a meddyliol a wynebwr gan bobl ifanc sy'n byw yn Llanilltud Fawr. Bydd £10,000 yn ariannu hurio ystafell, costau tiwtor cerddoriaeth ac adnewyddu offerynnau.
Caerdydd	ACE - Action in Caerau and Ely	Bydd ACE - Action in Caerau and Ely yng Nghaerdydd yn sefydlu pantri bwyd a redir gan wirfoddolwyr, gan gynnig cynnyrch fforddiadwy ac iach i bobl sy'n profi tlodi bwyd. Bydd £9,288 yn ariannu staff, arwyddion a chyhoeddusrwydd, oergell arddangos mawr a rhewgell, silffoedd a chyfieithu Cymraeg.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Caerdydd	Arts Active Trust	Bydd Arts Active Trust yng Nghaerdydd yn creu cerddorfa a fydd yn gwbl hygyrch i bobl ifanc anabl , gan ddod â nhw ynghyd i greu cerddoriaeth ac adeiladu sgiliau cymdeithasol. Bydd £9.882 yn ariannu hyfforddwy, hyfforddiant, ffioedd cofrestru, trwsio offerynnau a chostau cydlynu'r prosiect.
Caerdydd	Aubergine Cafe and Events C.I.C.	Bydd Aubergine Cafe and Events C.I.C. yn Rhondda Cynon Taf yn sefydlu caffï yng Nghaerdydd i gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer oedolion sydd ag awtistiaeth. Bydd £9,594 yn ariannu rhent, gwres a golau, cyfarpar, gwisgoedd unffurf, hyfforddiant, gweinyddu a chostau cyfreithiol.
Caerdydd	Bydd Splott Community Volunteers	Bydd Splott Community Volunteers yng Nghaerdydd yn prynu fan wedi'i oeri i gludo rhoddion bwyd i'r clybiau brecwast y maent yn eu cynnal ar gyfer y gymuned, gyda'r nod o ddiwallu anghenion pobl ddigartref, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl sy'n unig a theuluoedd sydd ar incwm isel. Bydd £10,000 yn ariannu fan wedi'i oeri.
Caerdydd	Canolfan Mileniwm Cymru	Bydd Canolfan Mileniwm Cymru'n cyflwyno RawFfest, gŵyl gelfyddydau genedlaethol flynyddol a arweinir gan ieuenctid ar gyfer Cymru sy'n digwydd 25-28 Ebrill. Bydd £8,500 yn ariannu Cydlynnydd Datblygu Ieuenctid, hyfforddiant a threuliau staff a gwirfoddolwyr, hygyrchedd, gwerthuso, costau cyffredinol yr ŵyl.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Caerdydd	Fio	Bydd Fio, cwmni theatr i bobl ifanc yng Nghaerdydd yn gweithio gyda'i ddefnyddwyr i greu ffilm am Linellau Sirol, gan adlewyrchu'r effaith y mae'r mater hwn yn ei chael ar les pobl ifanc yn yr ardal. Bydd £9,990 yn ariannu nwyddau swyddfa, cludiant, cyhoeddusrwydd, costau cyfieithu, costau gwirfoddolwyr a gweithwyr, cefnogaeth tuag at gostau cyffredinol a camera.
Caerdydd	Sound Progression	Bydd Sound Progression yng Nghaerdydd yn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithdai cerdd creadigol sy'n hyrwyddo mynegiad cadarnhaol fel dewis amgen i ymddygiadau dinistriol a throreddol. Bydd £10,000 yn ariannu costau gweithiwr sesiynol, costau rheoli prosiect a chyhoeddusrwydd.
Caerffili	Connect Life Church (Elim Pentecostal)	Bydd Connect Life Church yng Nghaerffili'n sefydlu Hyb Menter 40 wythnos ar gyfer oedolion ifainc ddifreintiedig nad ydynt mewn gwaith nac addysg o ganlyniad i ddiffyg dyheadau, cymwysterau neu argaeledd swyddi. Bydd y prosiect yn galluogi nhw i ennill y sgiliau sydd eu hangen i gyrchu hunangyflogaeth, cyflogaeth neu addysg a datblygiad pellach. Bydd £10,000 yn ariannu treuliau gwirfoddolwyr a staff, costau hyfforddi a goruchwyllo, Rheolwr Menter leuenctid, ac adnoddau.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Casnewydd	1st Bassaleg Scout Group	Bydd 1st Bassaleg Scout Group yng Nghasnewydd yn gweithio gyda'u cymuned i adnewyddu eu neuadd i gefnogi'r cynnydd yn niferoedd eu grŵp a'i wneud yn fwy hygyrch i'r gymuned leol. Bydd £8,000 yn adeiladu costau adeiladu a ffitio.
Castell-nedd Port Talbot	Jubilee Project Port Talbot	Bydd Jubilee Project Port Talbot yn adnewyddu eu hadeilad fel y gallant barhau i ddarparu bwyd cynnes, dillad a chefnogaeth ar gyfer oedolion bregus yn y gymuned leol. Bydd £9,950 yn ariannu gosod system larwm tân a goleuadau argyfwng, trwsio'r to a'r nenfwd, socedi trydan newydd a phrawf trydanol.
Ceredigion	A4W Innovation C.I.C	Bydd A4W Innovation C.I.C yng Ngheredigion yn defnyddio'r grant i hyfforddi eu gwirfoddolwyr er mwyn iddynt redeg hybiau cymunedol fel y gall pobl hŷn yn eu hardal gwrdd a chymdeithasu. Bydd £9,504 yn ariannu hyfforddwr, treuliau gwirfoddolwyr, teithio, nwyddau swyddfa a lluniaeth.
Ceredigion	Cwmni Urdd Gobaith Cymru	Bydd y prosiect yn defnyddio'r grant o £300,000 i drawsnewid isadeiledd Gwersyll yr Urdd, Llangrannog i greu canolfan weithgareddau fodern a hyblyg. Bydd hon yn cynnwys llety newydd, cegin ac ystafell ginio newydd i gynnwys 250 gyda hyblygrwydd i'w defnyddio fel neuadd amldeffnydd, hyb digidol, neuadd amldeffnydd, derbynfa a phwynt croesawu newydd ac ardaloedd cymdeithasol ac addysg awyr agored newydd.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Ceredigion	Cymdeithas Gofal The Care Society	Bydd Cymdeithas Gofal The Care Society yng Ngheredigion yn prynu cyfarpar TG i helpu'r aelodau mwyaf bregus o'u cymuned i ymgeisio am amrywiaeth o gefnogaeth. Bydd £9,834 yn ariannu cyfrifiaduron, meddalwedd, dodrefn, costau staff a hysbysebu.
Ceredigion	Cymuned Pennant Community Limited	Bydd Cymuned Pennant Community Limited yng Ngheredigion yn defnyddio'r grant i dynnu ac ailosod llawr eu canolfan gymuned, a fydd yn ei dro'n cynyddu defnydd o'r gofod. Bydd y grant hwn o £10,000 yn ariannu tynnu'r llawr presennol i fyny, costau inswleiddio, costau atgyweirio, gosod asglodfwrdd a gorchudd llawr.
Conwy	Attend North Wales	Bydd Attend North Wales yn defnyddio'r grant i ddod â grwpiau cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd trwy hwyluso gweithdai i gynyddu eu gwybodaeth ac adeiladu rhwydwaith ar draws Gogledd Cymru. Bydd £4,965 yn ariannu costau'r grŵp llywio, costau cysylltu â grwpiau, costau hwylusydd, prydau, lluniaeth, costau teithio, cylchlythyr a gwerthuso.
Conwy	Colwyn Bay Watersports CIC	Bydd Colwyn Bay Watersports CIC yn cynyddu cyfranogiad yn eu camp gan y rhai sydd â symudedd cyfyngedig neu nam ar y golwg trwy brynu cerbyd cyfleustod 4x4 i gludo pobl i'r glannau'n ddiogel. Bydd £10,000 yn prynu bygi pob tir.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Conwy	Ysgol Pencae	Bydd Ysgol Pencae yng Nghonwy yn gwella iechyd a lles yn y gymuned trwy osod cyfarpar campfa awyr agored. Bydd £10,000 yn ariannu cyfarpar ymarfer corff arbenigol.
Gwynedd	Cymdeithas Eryri	Bydd Cymdeithas Eryri yng Ngwynedd yn cynnal digwyddiad natur a chadwraeth tri diwrnod i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr, adeiladu cysylltiadau cryfion trwy wirfoddoli ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol. Bydd y grant hwn o £3,000 yn ariannu cludiant a chynhaliadaeth i wirfoddolwyr, hurio pabell fawr a hurio cerddor.
Gwynedd	Y Dref Werdd	£499,220 Bydd Y Dref Werdd yn sefydlu canolfan ym Mlaenau Ffestiniog a fydd yn darparu mynediad cyfleus ar gyfer y gymuned, yn enwedig pobl fregus, i'r gwasanaethau a fydd yn galluogi nhw i oresgyn problemau fel iechyd a lles, tlodi a sgiliau cyflogaeth. Bydd yr amgylchedd a chynefinoedd lleol yn cael eu gwella hefyd, gyda'r gymuned leol yn caffael dealltwriaeth o'u pwysigrwydd, dysgu sgiliau newydd a manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli. Bydd 3,000 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dros gyfnod o bedair blynedd.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Pen-y-bont ar Ogwr	Bridgend Community Bereavement Support	Bydd Bridgend Community Bereavement Support yn darparu cefnogaeth ar gyfer, ac yn codi ymwybyddiaeth o, sut mae profedigaeth yn effeithio ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bydd £10,000 yn ariannu hyfforddiant ymwybyddiaeth hunanladdiad mewn ysgolion, deunyddiau marchnata, cwnsleriaid a gwasanaeth coffau.
Pen-y-bont ar Ogwr	Hope Ministries Cwmbran	Bydd Hope Ministries Cwmbran yn dodrefnu cartref ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer menywod sy'n brwydro yn erbyn digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau i ddarparu llety a chefnogaeth iddynt. Bydd £9,400 yn ariannu dodrefn, nwyddau swyddfa a chyfarpar TG.
Powys	Berriew Preschool and Toddler Group	Bydd Berriew Preschool and Toddler Group yn Y Trallwng yn rhedeg prosiect rhwng y cenedlaethau gyda'r plant a grŵp o breswylwyr mewn cartref gofal lleol. Bydd £2,070 yn ariannu costau bws mini, cyfarpar TG, offerynnau cerdd, balwnau a swigod a lluniaeth.
Powys	Bleddfa Trust	Bydd Bleddfa Trust ym Mhowys yn gwella ardal gyntedd Canolfan Bleddfa i gynyddu amrywiaeth ddefnydd, gan estyn yr ystod o weithgareddau a all gael eu darparu ar gyfer y gymuned leol. Bydd £10,000 yn ariannu ffenestri a drysau newydd ac yn prynu cyfarpar.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Powys	Caersws Recreation Ground	Grant £ 86,000 Bydd Cymdeithas Hamdden Caersws yn uwchraddio maes chwarae hen ffasiwn gydag amrywiaeth o gyfarpar chwarae modern a chynhwysol ar gyfer ystod eang o oedrannau. Bydd y prosiect yn lleihau unigedd trwy gynyddu cyfleoedd cymdeithasu ac yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer pobl ifanc.
Powys	Cymdeithas Maes Chwarae Llansilin (Llansilin Playing Fields Association)	Grant £31, 888 Bydd y prosiect yn adnewyddu maes chwarae adfeiliedig yng nghanol pentref gwledig. . Bydd y maes chwarae'n cynyddu gweithgarwch corfforol ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn gwella cyfleoedd cymdeithasol ar gyfer teuluoedd.
Powys	Hay & District Dial-a-Ride	Bydd Hay & District Dial-a-Ride yn darparu gwasanaeth cludiant cymunedol ar gyfer pobl sy'n byw o fewn 9 milltir o'r Gelli Gandryll. Bydd £2,320 yn ariannu tanwydd, gweinyddu, hyfforddi gwirfoddolwyr a deunyddiau cyhoeddusrwydd.
Powys	Hay, Brecon and Talgarth Sanctuary for Refugees	Bydd Hay, Brecon and Talgarth Sanctuary for Refugees yn gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol i gynnig croeso a seibiant ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yn Ne Cymru. Bydd y grant hwn o £9,740 yn ariannu llety, cludiant, cyfieithu, cyfarpar awyr agored a dillad.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Powys	L'Arche	Bydd L'Arche ym Mannau Brycheiniog yn addysgu'r trigolion preswyl sydd â galluoedd dysgu amrywiol am lwybrau cerdded a dod o hyd i'w ffordd o gwmpas tirwedd y Parc Cenedlaethol yn ddiogel fel y gallant ymweld â chymunedau eraill yn yr ardal a dysgu ffotograffiaeth. Bydd £1,836 yn ariannu staff, hurio lleoliad a chludiant.
Powys	Mid Powys Mind	Bydd Mid Powys Mind yn parhau i ddatblygu eu Prosiect Ieuencid, grŵp wythnosol ar gyfer pobl 16-25 oed sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnig cefnogaeth gan gymheiriaid, gwybodaeth, cyfeirio ymlaen a rhaglen weithgareddau. Byddant hefyd yn estyn allan i ysgolion i addysgu myfyrwyr am iechyd meddwl a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Bydd £9,968 yn ariannu gweithiwr ieuencid, gweithgareddau, teithio, costau swyddfa, cyhoeddusrwydd a chostau rheoli.
Powys	Ponthafren Association	£498,921 Bydd Cymdeithas Ponthafren yn cyflwyno'r prosiect Ponthafren Empowering, Inspiring, Education a fydd yn adeiladu ar ddysgu o'r rhaglen gyfredol o gwrsela ac ymadfer 1 i 1 trwy wella ei dull llwybr newydd. Bydd yn sefydlu gofod yn Llanidloes i gyflwyno gwasanaethau hefyd. Bydd y prosiect yn cefnogi rhwng 1200 a 1425 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl; a bydd 40 o wirfoddolwyr yn ennill hyder a sgiliau yn ardaloedd Y Trallwng, Y Drenewydd a Llanidloes.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Rhondda Cynon Taf	Cynon Valley Church	Bydd Cynon Valley Church yn Rhondda Cynon Taf yn cyflogi gweithiwr allgymorth plant i ddarparu cefnogaeth gwaith grŵp ar gyfer plant 4-11 oed sy'n wynebu risgiau er mwyn eu tywys a'u maethu yn eu datblygiad. Bydd £10,000 yn ariannu hyfforddi a datblygu, gweinyddu, staff a gwirfoddolwyr, cyhoeddusrwydd, lluniaeth.
Rhondda Cynon Taf	South Wales Community Mountain Rangers	Bydd South Wales Community Mountain Rangers yn Rhondda Cynon Taf yn darparu sesiynau tyfu llysiau ar gyfer y gymuned leol, ac i roi'r bwyd dros ben i bobl sydd mewn angen. Bydd £10,000 yn ariannu cyfarpar ac offer garddio.
Rhondda Cynon Taf	Women's Aid in Rhondda Cynon Taf	Grant o £260,041 Bydd y prosiect yn creu canolfan newydd yng Nghwm Rhondda i ddarparu cefnogaeth hygyrch ar gyfer dynion, menywod, plant a phobl ifanc sydd yn neu sydd wedi bod yn ddiodefswyr trais yn erbyn menywod, trais yn y cartref a thrais rhywiol. Bydd y ganolfan yn darparu gwasanaethau fel allgymorth, galw heibio, ystafelloedd hyfforddi, canolfan sgiliau ac ystafelloedd cefnogaeth. Bydd 500 o bobl y flwyddyn yn elwa o'r prosiect.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Rhondda Cynon Taf	Ystradyfodwg Dig for Health	Bydd Ystradyfodwg Dig for Health yn Rhondda Cynon Taf yn trefnu Ystrad Big Get Together, digwyddiad dathlu i wella cydlyniant cymunedol ac annog balchder yn yr ardal leol. Bydd £8,637 yn ariannu gasebos, generadur, llwyfannau, cysylltiadau cyhoeddus, byrddau plygu a radios.
Sir Benfro	Canolfan Clydau	Bydd Canolfan Clydau yn Sir Benfro'n defnyddio'r grant i ddatblygu a rhedeg sesiynau gweithgareddau a chymdeithasu gyda'r bobl hŷn yn eu cymuned. Bydd y grant hwn o £9,553 yn ariannu 16 o sesiynau wythnosol, treuliau gwirfoddolwyr a lluniaeth.
Sir Benfro	Regency Hall Community Centre	Bydd Regency Hall Community Centre yn Sir Benfro'n gwella acwsteg eu lleoliad trwy brynu llenni newydd. Bydd £4,159 yn ariannu llenni acwstig.
Sir Benfro	The DPJ Foundation	Bydd The DPJ Foundation yn Hwlfordd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'u gwasanaeth ffôn i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn cymunedau gwledig, gan gynnig cefnogaeth 24/7 a mynediad i sesiynau cwnsela. Bydd £10,000 yn ariannu yswiriant, gwirfoddolwyr, hysbysebu, hurio lleoliad a ffioedd, cyfieithu, marchnata a chostau TG.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Ddinbych	Giddo's Gift	Bydd Giddo's Gift yn Y Fflint yn darparu blychau byrbryd ar gyfer pobl ifanc sy'n cael triniaeth ganser yn yr ysbyty. Rhoddir benthyg gliniaduron a ffonau symudol i'r bobl ifanc os bydd angen i gadw mewn cysylltiad â'u cefnogaeth gan gymheiriaid yn ystod eu taith driniaeth. Bydd £2,500 yn ariannu blychau a chynnwys.
Sir Ddinbych	Rhyl Men's Shed	Bydd y grant o £90,582 yn cefnogi datblygu Sied Dynion Y Rhyl, Sied Menywod Y Rhyl ac yn peilota Sied Plant. Mae'r Siediau'n darparu gweithgareddau i leihau unigedd, cynyddu lles ac ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i'r gymuned. Bydd gweithgareddau newydd yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr i fod yn eiriolwyr cymunedol er mwyn ennyn diddordeb ac ymgynghori â'r rhai sy'n anos eu cyrraedd. Bydd y Sied Plant yn darparu gweithgareddau i dysgu sgiliau, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o droseddu a chael eu diarddel.
Sir Ddinbych	Stand North Wales CIC	Bydd Stand North Wales CIC yn Y Rhyl yn cefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych gyda phlant ag anghenion ychwanegol a galluoedd corfforol amrywiol trwy ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau, hyfforddiant a gweithgareddau i gefnogi rhieni ac anghenion eu plant yn y gymuned. Bydd £10,000 yn ariannu hyfforddiant, gweithgareddau, creu mynediad, gweinyddu, marchnata a chyfieithu.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Ddinbych	Ysgol Bryn Collen Llangollen	Bydd Ysgol Bryn Collen Llangollen yn cyflwyno prosiect cymunedol digidol i ddyfnhau diddordeb a gwerthfawrogiad plant o'u treftadaeth, amgylchedd a chymuned leol, ac ar yr un pryd adeiladu a chynnal cysylltiadau â'u cymuned leol. Bydd £8,480 yn ariannu cyfarpar cynhyrchu, naw diwrnod o amser artist proffesiynol, cludiant i safleoedd ac arlwyo ar gyfer digwyddiad mawr.
Sir Gar	CETMA Ltd	Bydd CETMA Ltd yn cyflwyno prosiect Grŵp LHDT+ Sir Gâr yn Sir Gâr, sef Rhydaman, Llanymddyfri, Sanclêr a Chastell Newydd Emlyn. Bydd y bothau LHDT+ yn darparu amgylchedd diogel y gall pobl fynd iddynt am gefnogaeth, cyngor, arweiniad ac i adrodd am ddigwyddiadau a throseddau casineb homoffobig. Hefyd, bydd pob both yn trefnu diwrnodau ymwybyddiaeth a chhydraddoldeb LHDT+ yn eu hardal i hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth o fewn y gymuned leol. Mae'r prosiect yn cynnwys prynu bws mini i alluogi pobl o ardaloedd mwy anghysbell i ddod.
Sir Gâr	CETMA Ltd	Bydd CETMA Ltd yn Sir Gâr yn helpu hyrwyddo iechyd a lles meddyliol y gymuned trwy redeg gweithdai i gynyddu hyder a lleihau unigedd trigolion lleol. Bydd £9,800 yn ariannu hurio ystafell, marchnata, costau gwirfoddolwyr a staff, cyfarpar, nwyddau swyddfa, digwyddiadau a hyfforddiant.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Gâr	Cross Hands and District Old Age Pensioners Association	Bydd Cross Hands and District Old Age Pensioners Association yn Sir Gâr yn gweithio gyda phlant lleol trwy weithgareddau rhwng y cenedlaethau fel garddio, gwnio a darllen. Bydd £610 yn ariannu hurio neuadd a chostau cludiant.
Sir Gâr	Equate Land Base C.I.C.	Bydd Equate Land Base C.I.C. yn Sir Gâr yn defnyddio'r grant i ddarparu annibyniaeth i aelodau eu cymuned sydd ag anghenion ychwanegol, trwy ryngweithio therapiwtig â cheffylau. Bydd £9,795 yn ariannu staff, hyfforddiant, cysylltiadau cyhoeddus, cyfarpar amddiffynnol personol, cerbyd ceffylau, nwyddau swyddfa a garddio.
Sir Fynwy	Cyngor Cymuned Llanbadoc	Bydd Cyngor Cymuned Llanbadoc yn Sir Fynwy yn ei wneud yn haws i'r gymuned gyrchu'r parc a'r tir comin drws nesaf i Afon Wysg ac felly mwynhau mwy o gyfleoedd hamdden a chymdeithasol. Bydd £10,000 yn ariannu deunyddiau adeiladu.
Sir Fynwy	Monmouthshire Housing Association Limited	Bydd Monmouthshire Housing Association Limited yn hwyluso ehangiad eu prosiect Dads Can hynod lwyddiannus, gwasanaeth cefnogi dynion gan ddefnyddio dull anogaeth a mentora o rymuso tadau a'r rhai sydd â rôl tadau wrth adnabod a goresgyn yr heriau y maent yn eu hadnabod. Bydd £10,000 yn ariannu Gweithiwr Datblygu, teithio, argraffu a gweithgareddau a digwyddiadau.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir y Fflint	Art and Soul Tribe CIC	Bydd Art and Soul Tribe CIC yng Nghei Connah yn peilota prosiect mewn partneriaeth ag Ysgol Uwchradd Penarlâg a fydd yn cynnwys cyflwyno gweithdai i ennyn diddordeb pobl ifanc i ysbrydoli, codi ymwybyddiaeth, cefnogaeth a chynyddu hunan-barch a hunanwerth. Bydd £8,734 yn ariannu cwrs Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl, llety, teithio, cyfarpar, marchnata, gweithdai, gweinyddu a gwerthuso.
Torfaen	Thornhill Art Club	Bydd Thornhill Art Club yn Nhorfaen yn defnyddio'r grant i weithio gyda'u cymuned i redeg sesiynau celf a chwarae awyr agored gyda phlant a phobl ifanc, a sesiynau teuluol i gefnogi rhieni sydd â phlant ifanc i gymdeithasu a lleihau unigedd. Bydd £9,050 yn ariannu cyfarpar chwarae awyr agored a blynyddoedd cynnar, hurio lleoliad, treuliau gwirfoddolwyr, gweithgareddau celf a chreffft, lluniaeth a hyfforddiant."
Wrecsam	Bydd Polish Integration Support Centre CIC	Bydd Polish Integration Support Centre CIC yn Wrecsam yn sicrhau pencadlys ar gyfer elusen er mwyn i'r gymuned gyrchu eu gwasanaethau a darparu cynladwyedd ar gyfer y mudiad. Byddant yn darparu gweithdai dwyieithog a gwydnwch i blant ac oedolion o'r gymuned Bwylaidd i helpu taclo bwllo. Bydd £9,990 yn ariannu rhent swyddfa, nwyddau swyddfa a gweithdai.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Wrecsam	Your Space (Marches) Limited	Grant o £499,924. Bydd y prosiect yn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed sydd ag awtistiaeth a/neu gyflyrau cysylltiedig, a'u teuluoedd, sy'n byw yn Wrecsam a'r cylch. Bydd y gwasanaethau'n cynnwys gwasanaethau aros i mewn, seibiant, cefnogaeth deuluol, clwb ieuenctid i bobl yn eu harddegau, diwrnodau allan i'r teulu a hyfforddiant cymunedol.
Ynys Môn	Amlwch Port Sports and Social Association	Bydd Amlwch Port Sports and Social Association ym Môn yn adnewyddu cegin a chyfarpar Canolfan Gymunedol Yr Hen Ysgol at ddefnydd y gymuned. Bydd £1,150 yn ariannu nwyddau gwynion, lloriau, teils, paent ac unedau cegin.